

Cenn@d

GORFFENAF 17 2024 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 177

Eglwysi Cymru yn darparu cannoedd o dai i bobl yn eu cymunedau lleol

Mae'n debyg ein bod wedi hen ddiflasu ar ddarllen y penawdau negyddol yn y cyfryngau'n sôn am gapeli ac eglwysi'n cau, ac yna'n cael eu gwerthu er mwyn eu troi'n gartrefi gwyliau, yn Airbnb neu'n weithdy blêr yr olwg. Bu hanes capel y Parch. Evan Roberts ym Mhistyll, Llŷn, ac Eglwys Goffa Ann Griffiths yn y penawdau'n ddiweddar, gyda beirniadaeth lem ar yr enwadau am eu diffyg parch a gofal o'r adeiladau hynafol hyn. Cawsom stori hefyd am wraig yn cael ei throï allan o'i chartref wrth i'r achos gau, a gorfodaeth i werthu'r adeilad o'r herwydd.

Gormod o adeiladau

Does dim amheuaeth nad oes yna adeiladau sydd â gwerth hanesyddol a diwylliannol yn perthyn iddynt a bod angen diogelu rhai o'r manau cysegredig hyn. Ond y gwir plaen yw nad oes modd diogelu pob un capel ym mhob un cymuned, ac mae'n anorffod y gwelwn ddegau, os nad cannoedd, o gapeli ac eglwysi yn cael eu cau a'u gwaredu dros y degawd nesaf. Does dim angen amgueddfa / canolfan dreftadaeth Gristnogol arnom ymhob un pentref dros Gymru!

Erbyn hyn, mi fydd yr enwadau'n edrych yn ofalus iawn ar y sefyllfa'n lleol cyn penderfynu gwerthu unrhyw adeilad, gan ofyn a oes 'na gyfle cenhadol, neu a oes modd plannu rhywbeth newydd, neu weithio'n gydenwadol i sefydlu gwaith newydd. Ond mewn amryw o sefyllfaoedd, ni fydd yr adeiladau hynny'n addas ar gyfer gwaith newydd. Ac os yw cyflwr yr adeiladau'n sâl, mae'n well gwaredu a llogi/prynu gofod mwy addas. Mae sawl eglwys flaengar wedi gwerthu adeilad oedd yn anaddas ar



Yr hen fans a dau fflat sy'n gartref i dri theulu yn Chwilog

gyfer gofynion heddiw ac yn llogi gofod cymunedol ar gyfer eu cyfarfodydd. Ar rai adegau, bydd modd gosod yr adeilad ar les dymor hir i eglwys neu sefydliad arall, os gwelir bod gwerth iddo o fewn y gymuned. Os nad yw hynny'n ymarferol, yna mae'n well gwerthu'r adeilad er mwyn iddo gael ei ddatblygu i bwrpas gwahanol, boed yn gartref neu'n ganolfan. Cofiw'n mai 'pobl' sy'n gwneud eglwys ac nid 'cerrig'.

Defnydd ehangach gan y gymuned

Ond gan gydnabod bod yna nifer o gapeli ac eglwysi wedi cael eu gwerthu yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n rhaid hefyd sylweddoli bod yna stoc sylweddol iawn o adeiladau'n dal ar agor. Yn ogystal â chael eu defnyddio at waith a chenhadaeth yr eglwys, maent yn cael eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Bydd pob math o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ynddynt, ac yn aml iawn efallai mai'r capel yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y pentref.

Mi rydw i'n weinidog ar ddau gapel felly – yn Llwyndyrus a Phencaenewydd yn Eifionydd. Yn ogystal ag oedfaon ac ysgolion Sul yn y ddau leoliad, bydd y gofod hefyd yn cael ei ddefnyddio gan fudiad y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, cwmni drama, dosbarth cadw'n heini, partion plant, ac yno hefyd yr oedd modd bwrw pleidlais yn yr etholiad a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bu gosod cyswllt â'r we yn y ddau le yn gymorth i ddenu defnyddwyr o'r tu allan, gan eu gwneud yn gyfleus ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor Cymuned yn fisol. Ond, yn bwysicach, maent yno ynghanol y gymuned – yn ofod cyhoeddus ar gyfer achlysuron arbennig pan fo angen. Erbyn hyn mae un o'n capeli yn Chwilog yn cael ei ddefnyddio rhwng 9 a 5 o'r gloch o ddydd Llun tan ddydd Gwener i gynnal Ysgol Feithrin yn y pentref. Hwn oedd yr unig adeilad addas yn y pentref oedd wrth law i'r ysgol, a braf clywed sŵn 15 o blant yn rhedeg o gwmpas y lle

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Eglwys Cymru yn darparu cannoedd o dai i bobl yn eu cymunedau lleol (parhad o dudalen 1)

yn ystod y dydd. Maent wedi datblygu gardd gymunedol a lle chwarae tu allan, ac wedi llwyddo i godi cegin a thoiledau newydd ar gyfer y capel.

Tai cymunedol

Byddwn yn clywed llawer o sôn y dyddiau yma am brinder tai rhent fforddiadwy yn ein cymunedau. Dyma un cyfraniad arall mae eglwys Cymru yn ei gyflawni. Yma yn Chwilog, er enghraifft, rhwng y ddau enwad mae gennym ddau fans nad oes

mo'u hangen ar gyfer y gweinidog, tri thŷ capel a dau eiddo arall sy'n cael eu gosod i deuluoedd lleol. Dyna saith cartref sy'n cael eu darparu gennym, mwy nag sydd yna o dai cymdeithasol gan y Cyngor erbyn hyn yn y pentref.

Rydym ar hyn o bryd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o brynu un eiddo arall, sydd angen gwaith sylweddol arno, er mwyn ei gynnig i rywun lleol, rhag iddo gael ei droi'n fwthyn gwyliau arall. O fewn yr ofalaeth mae 'na gyfanswm o 12 cartref yn cael ei ddarparu yn ein cylch lleol ni. Petaem yn edrych ar y darlun ehangach, down i sylweddoli bod 'na gannoedd,

os nad miloedd, o dai'n cael eu gosod gan gapeli ac eglwys. Tybed a ddylem fynd ati i greu fforwm neu gymdeithas tai fel enwadau, er mwyn rhannu am yr holl waith da sy'n cael ei gyflawni? Mae swyddogion gwirfoddol ein heglwys yn barod i fynd ar gyrisiau hyfforddiant er mwyn parhau i wneud hyn, a rhaid cydnabod a diolch am yr ymroddiad hwn. Bydd llawer hefyd yn gwneud gwaith cynnal a chadw er mwyn gofalu bod y tai yn ddiogel ac yn gyfforddus.

Ie, heb os, fe glywn adrodd eto yn y cyfryngau am y modd y mae'r 'enwadau' wedi cau capeli pwysig neu wedi amddifadu rhywun o gartref wrth ddwyn achos i ben. Pan glywn y storïau hynny, lle bydd 'na feirniadu hallt ar y cyfryngau cymdeithasol, cofiwn hefyd am yr holl ddefnydd da ac adeiladol sydd yna ar ein hadeiladau, ac am y gofal a'r buddsoddi sy'n cael ei wneud er mwyn eu diogelu i'r dyfodol.

Beth am yr adeiladau yn eich ardal chi? Ydych chi'n gwneud y defnydd gorau posib ohonynt? Oes 'na gyfle i addasu a datblygu adeilad er mwyn gwneud gwell defnydd ohono? Parhaed y drafodaeth yn lleol!

Aled Davies



Cylch Meithrin Chwilog sydd bellach yn cartrefu yn festri Capel Uchaf Chwilog yn barhaol

Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Ers mis Medi y llynedd mae'r ysgol Sul wedi parhau i gyfarfod, er iddi fod yn anodd iawn cael pawb at ei gilydd ar yr un noson. Ond er gwaethaf yr anawsterau bu'n bosib cynnal oedfaon diolchgarwch, y Nadolig a'r Pasg, gyda'r plant a'r bobl ifanc yn cyflawni eu gwaith yn raenus iawn mewn pennill a chân. Yn ogystal, bu'r aelodau'n cymryd rhan yn y Gymanfa yng Nghaersalem ym mis Mai, gan dderbyn canmolïaeth uchel am eu canu a'u llefaru. Hefyd casglwyd nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd yn ystod y flwyddyn.

Braf yw cyhoeddi llwyddiant yr ysgol Sul yn derbyn grant o £278 gan Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngwladol) Dydd Gweddï'r Byd. Cwbwlhawyd y ffurflen gais, oedd yn gofyn am gryn fanylder gan Llinos a Janet. Defnyddir yr arian i brynu adnoddau amrywiol i greu murluniau a phrosiectau celf Beiblaidd. Gobeithio bydd yr aelodau cynradd ac uwchradd yn medru dod ynghyd i wireddu hyn y tymor nesaf.

Dymuna Janet ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad ar hyd y flwyddyn ac yn arbennig i Llinos, Geinor a Delyth sydd wedi rhoi o'u hamser i gynorthwyo yn yr ysgol Sul. Edrychwn ymlaen at gyfarfod o hyn i ddiwedd y tymor ac yna mwynhau seibiant dros yr haf cyn aildechrau eto ym mis Medi. Haf hapus i bawb.

Janet Evans

Ordeinio blaenor yn Henaduriaeth Môn

Dydd Mawrth, 25 Mehefin, fe groesawyd Mrs Meinir Lloyd Jones, Llywydd y Gymeithasfa yn y Gogledd, i Henaduriaeth Môn yng nghapel Gosen, Llangwyllog. Cafwyd oedfa gyhoeddus yn yr hwyr pryd yr ordeiniwyd Mrs Sheila Owen yn flaenor yn eglwys Hyfrydle, Caergybi. Cafwyd cyngor amserol i'r blaenoriaid gan Mrs Meinir Lloyd Jones.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Eryl Wynn Davies, Sheila Owen, Meinir Lloyd Jones, Jane Richards a Megan Williams

Taith i Dde Affrica



Cynhadledd CWM yn Durban

Roedd mynychu Cynulliad Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) yn Ne Affrica yn brofiad trawsnewidiol. Fel cynrychiolydd ieuencid ar ran Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, ymunais â theulu CWM, sy'n cynnwys 32 o eglwysi ar draws y byd, ar daith ddofn o undod a chyfeillgarwch.

Cyn i'r gynhadledd ddechrau, cafodd y merched a'r ieuencid gyfle i drafod mewn *pre-assembly*. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle amhrisiadwy i gyfnewid straeon a rhannu heriau mae rhanbarthau'n eu hwynebu. Rhannodd cynrychiolwyr o wahanol rannau o'r byd eu profiadau, oedd yn amlgu'r brwydrau amrywiol ond cysylltiedig a wynebir gan gymunedau gwahanol. Un o'r pethau ysgytwol a wynebais oedd trafod problemau unigolion o bob rhanbarth. Wrth wrando ar y problemau enbyd a wynebir gan gynadleddwyr o wledydd y dwyrain, teimlais yn aml fod y problemau yng Nghymru yn pylu mewn cymhariaeth. Roedd difrifoldeb eu brwydrau yn gwneud i'm pryderon fy hun ymddangos yn ddibwys. Fodd bynnag, drwy'r trafodaethau hyn, dysgais wers hollbwysig: nid yw difrifoldeb problemau rhywun arall yn tansilio fy mhroblemau i. Mae brwydrau pob rhanbarth yn ddilys ac yn arwyddocaol, gan gynnwys y rhai a wynebir yng Nghymru.



Y Parch. Dylan Rhys Parry o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Gwen Aeron Down o Eglwys Bresbyteriaidd Cymru

Mae yna deimlad treiddiol y gall sefydliadau a chynadledau fel y rhain deimlo'n symbolaidd yn unig, weithiau. Er bod trafod materion yn hanfodol, mae'r newid gwirioneddol yn dod yn y camau gweithredu sy'n dilyn. Ymhlith nifer o sgysiaus ysbrydoledig, cafwyd un amlwg iawn gan Priyanka Samy. Pwysleisiodd ei haraith yr angen dybryd i eglwysi fynd trwy newidiadau trawsnewidiol. Roedd ei geiriau'n atseinio'n ddofn, gan atgyfnerthu'r syniad, er bod trafod yn hollbwysig, fod yn rhaid wrth gamau pendant i sicrhau newid gwirioneddol. Un frawddeg hollbwysig ganddi oedd: 'Mae gan eglwysi alwad brys i symud o undod *tokenistic* i undod trawsnewidiol.'

Roedd Cynulliad CWM yn Ne Affrica yn fwy na chynhadledd yn unig; roedd yn gydgyfeiriant o leisiau amrywiol wedi'u huno gan lais Duw. Mae'r cyfeillgarwch a'r partneriaethau a ffurfiwyd yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â'r profiadau a'r straeon a rannwyd, wedi gadael marc annileadwy ar fy nealltwriaeth o faterion byd-eang. Ategodd y gynhadledd y syniad, er y gall ein brwydrau amrywio o ran maint, fod angen sylw a gweithredu arnynt i gyd. Fy ngobaith yw y bydd yr ymrwymadau a wnaed yn ystod y gwasanaeth hwn yn troi'n newid diriaethol, gan adlewyrchu gwir ysbryd undod a chenhadaeth y mae CWM yn ei gynrychioli.

Rhaid cyfaddef imi gael cryn syndod ar ddyddiau olaf y gynhadledd, pan oedd y gynhadledd yn dewis eu cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Canolog am y pedair blynedd nesaf. Roedd rhanbarth Ewrop wedi fy enwebu i a Dylan Rhys, gweinidog Annibynwyr Pen-y-bont ar Ogwr, ar gyfer y gwaith. Ond roedd yn sioc i mi, a finnau'r ieuengaf yn y gynhadledd, i mi a Dylan, gael ein hethol ar y Cyngor o ddeuddeg. Dyma'r tro cyntaf i ddau o Gymru gael eu hethol. Roeddwn yn gegrwrth wedyn o gael fy ethol i fod yn un o dri fydd yn gyfrifol am NPC Affrica yn ogystal. Gobeithio y bydd yn rhoi cyfle i mi geisio sicrhau fod y gweithredu yn digwydd.

Gwen Aeron Down
Aberystwyth

Rydym yn llongyfarch Gwen a Dylan Rhys ar eu hethol yn gyfarwyddwyr CWM am y pedair blynedd nesaf. Dymunwn fendith arnynt ac edrychwn ymlaen at glywed mwy ganddynt wrth iddyn nhw ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Gol.

Cytûn yn y Sioe Fawr a'r Eisteddfod

Yn ôl ein harfer bydd gan Cytûn bresenoldeb yn y ddau ddiwyddiad cenedlaethol hwn, gan geisio bod yn dystiolaeth yn enw'r eglwysi a'r enwadau.

Os byddwch yn mynd i gyfeiriad Llanelwedd ar gyfer y Sioe, cofiwch alw i'n gweld ar res C, lle bydd 'na banded a theisen gri yn disgwyl amdanoch. Bydd gwasanaeth byr bob dydd am 11.00, a chyfle am sgwrs a seiat. Bydd dewis o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth, ynghyd â gweithgareddau i blant.

Eleni, presenoldeb llai o ran maint i'r arfer fydd 'na ar faes yr Eisteddfod, gan nad yw gofod yn caniatáu i ni gael ein stondin fawr arferol. Galwch i'n gweld serch hynny, a bydd detholiad o lyfrau newydd a chardiau Nadolig ar gael gennym. Oddi yno, fe wnawn eich cyfeirio at eglwys St Catherine, sy'n llai na 5 munud o daith ar droed, dros y bont droed ac i gyfeiriad y stryd fawr. Yno byddwn yn cynnig paneidiau yn ddyddiol, yn cynnal gwasanaethau dyddiol am 1.00 bob prynhawn ac yna ambell sesiwn a lansiad llyfr. Bydd yna arddangosfeydd hefyd yn yr eglwys, yn dangos gwaith nifer o fudiadau Cristnogol, ynghyd â sioe flodau ac arddangosfa o luniau ffenestri lliw hynafol. Mae croeso i deuluoedd alw i mewn, a bydd digon o ddarpariaeth ar gyfer plant o bob oed.

Bydd croeso mawr yn eich disgwyl felly yn eglwys St Catherine bob dydd o Sadwrn, 3 Awst, tan Sadwrn, 10 Awst, rhwng 11.30 y bore a 5.30 y pnanw.



Cytûn
Eglwysi Ynghyd
yng Nghymru
Churches Together
in Wales

Galwch i'n gweld yn Eglwys St Catherine



5 munud o'r maes

Ar agor bob dydd 3–10 Awst rhwng 11.30 a 5.30
(12.30–5.30 ddydd Sul)

Croeso cynnes i bawb

Gweithgareddau i blant

Addoliad bob dydd am 1.00

Stondinau ac arddangosfeydd

Cyfle i drafod cwestiynau mawr bywyd a ffydd

Arddangosfa flodau a ffenestri lliw hanesyddol yn adrodd hanes Cristnogaeth yng Nghymru

AM DDIM
I BAWB

PANED A THEISEN GRI

AM DDIM

Croeso cynnes i bawb



Daeth gwersi'r ysgol Sul i ben dros yr haf, ac rydym yn ddiolchgar i Denzil John am ei gyfraniadau gwerthfawr ar sail ei gyfrol *Gair Duw ar Waith*.

Bu'r myfyrdodau dros y flwyddyn ddiwethaf yn gyfle inni edrych ar y gwaith ymarferol sy'n cael ei gyflawni yn enw'r eglwysi.



BBC | radio cymru

Radio Cymru
Caniadaeth y Cysegr
Sul, 21 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

Oedfa Radio Cymru
Sul, 21 Gorffennaf, am 12yp
Oedfa dan ofal Wyn Thomas, Dre-fach Felindre a Thir Dewi

Y Parchedig Iain B Hodgins (1950–2024)

Ym marwolaeth y Parch. Iain Hodgins, collwyd un a wasanaethodd fel Ysgrifennydd a Llywydd yng Nghymdeithasfa'r Dwyrain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 2010–11, ac fel Trysorydd y Gymanfa ers 2023.

Yr oedd Iain yn fab i rieni duwiol a diwyd, y ddau'n gweithio i'r Great Northern Railways, ac yn aelodau ffyddlon yn eglwys Bresbyteraidd Clondarf yn Nulyn, Gweriniaeth Iwerddon. O'r cychwyniadau cynnar dywedodd Iain iddo wneud penderfyniad i wahodd Iesu i'w galon pan oedd yn mynychu'r cwrdd plant ar nos Wener. Wrth fynd gyda'i nain i agoriad eglwys Bresbyteraidd Malahide yng ngogledd dinas Dulyn ac yntau'n chwech oed, roedd yn cofio meddwl am fynd yn weinidog. Roedd yr ymwybyddiaeth o alwad yn fyw iawn iddo, ac yn rhywbeth yr oedd yn awyddus i'w gydnabod yn eraill.

Yn dilyn cyfnod yn yr ysgol uwchradd cafodd swydd yn gweithio i'r Bank of Ireland yn yr Adran Dramor. Ond, yn rhagluniaethol, bu yna streic yn y banc a barhaodd am chwe mis, a theithiodd Iain i weithio yng nghanolfan gwyliau Christian Endeavour ym Mhenmaen-mawr. Yno daeth i adnabod y Parch. Elis Edwards, a chafodd ei annog i ystyried mynd i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Derbyniodd Iain yr anogaeth a dechreuodd ar ei astudiaethau yno yn 1971.

Drwy un o ffenestri'r coleg y gwelodd Christine yn mynd heibio ryw ddydd, a phenderfynu mynd allan i gerdded gyda hi. Canlyniad hynny oedd eu priodas yn Elim, Pontllan-fraith, ym mis Mai 1975! Wrth edrych yn ôl ar ei weinidogaeth, dywedodd Iain: 'Mae popeth y bu imi ei wneud, popeth a fûm yn y weinidogaeth wedi elwa ac wedi'i helaethu gan Christine. Heb ei dylanwad melyn a'i hamynedd gyda phobl, mae'n debyg y byddwn wedi fy ngwahodd i adael. Tebyg mai tragwyddoldeb fydd yn datguddio'r holl bobl y bu iddi eu hannog a'u cynorthwyo dros yr hanner can mlynedd hyn.'

Ar ddiwedd ei dymor, derbyniodd Iain alwad i wasanaethu yn eglwys Hope Hall; Ebenezer, Blaina; Carmel, Abertyleri; Six Bells a Nazareth, Cwm-carn, ac fe ychwanegwyd Oakdale at ei ofalaeth yn ddiweddarach. Yr oedd ei flynyddoedd cynnar yn y weinidogaeth yn rhai helbulus, gyda llawer yn y Cyfundeb wedi eu clwyfo gan ymadawiad nifer o weinidogion a myfyrwyr i sefydlu eglwysi newydd. Roedd yna gryn densiynau yn

Henaduriaeth Gwent, a llugoer oedd y croeso i weinidogion oedd yn coleddu argyhoeddiadau efengylaidd, a threfnwyd nifer o ymchwiliadau i geisio gweld a oedd anfodlonrwydd yn yr ofalaeth â'r gweinidog ifanc. Wedi nodi hyn, tystiodd Iain i gyfnodau o fendith, yn arbennig yn y cyfarfodydd wedi'r oedfa ar gyfer yr ieuencid.

Yn 1983 derbyniodd Iain gynnig swydd bwrsar yn Tyndale House, Caergrawnt, ac yn ystod ei gyfnod yno roedd yn rhan o sefydlu Eglwys Bresbyteraidd Caergrawnt. Un o'r rhai oedd yn ymweld ag ef yno oedd y Parch. B. Tudor Lloyd, ac yn dilyn ymddeoliad Tudor Lloyd, derbyniodd Iain wahoddiad i weinidogaethu yn y Tabernacle, Pen-clawdd; Zoar, Crofty; Old Walls, Burry Green, a Cheriton. Yno y treuliodd weddill ei gyfnod fel gweinidog llawn-amser o 1995 hyd ei ymddeoliad.

Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â'r eglwysi hyn yn medru tystio i'r berthynas arbennig oedd yn bodoli rhwng gweinidog a chynulleidfia, y naill yn ofalus o'i bobl, a'r lleill yn anrhydeddus o Mr Hodgins bob amser. O'r llu o brofiadau oedd ganddo'n gweld drysau'n cau a drysau'n agor, yr oedd yn un oedd bob amser yn ein hannog i dderbyn y cau ac i gerdded drwy'r rhai agored yn llaw'r Arglwydd.

Yn ystod ei dymor fel Llywydd y Gymanfa rwy'n cofio iddo arwain sesiwn gyda'n gweithwyr gweinidogaeth, gan seilio'r sylwadau ar linellau o un o gerddi C. T. Studd:

Only one life, twill soon be past,
Only what's done for Christ will last.

Cyflawnodd amryw o swyddi o fewn yr Henaduriaeth, gan gynnwys Llywydd a Thrysorydd Gwent, Llywydd ac Ysgrifennydd Glamorgan West, a Llywydd ac Ysgrifennydd South West. Treuliodd hefyd gyfnod fel Ysgrifennydd Pwyllgor Rhanbarth Cymdeithasfa'r Dwyrain, cyfnod fel Ysgrifennydd a Llywydd y Dalaith, ac ysgrifennydd ei phwyllgorau Adnoddau a Gweinidogaeth.

Yn ychwanegol at hyn oll, roedd newydd ymddeol fel golygydd *The Treasury*, misolyn Saesneg Eglwys Bresbyteraidd Cymru, swydd yr oedd wedi ei dal ers 1998. Yr oedd hyn yn rhoi cyfle i'r Cyfundeb elwa o'i wybodaeth ryfeddol am unigolion ac eglwysi, a'r un pryd yn rhoi cyfle iddo yntau i gymryd hynny o luniau ohonom ag oedd yn bosibl i lenwi'r tudalennau.

Wrth gyfeirio at eifwriad i anfon Timotheus i ymweld ag eglwys Philipi, mae Paul yn



dweud amdano, 'Nid oes gennyf neb o gyffelyb ysbryd iddo ef, i gymryd gwir ofal am eich buddiannau chwi'. Er bod Iain yn un oedd yn naturiol ostyngedig, yn gwybod yn dda am yr hyn yr oedd ef yn ei dybio oedd ynwendidau a ffaeiddau personol, eto, roedd yn cymryd pob cyfle i ofalu, i fugeilio, i gefnogi ac annog. Wrth hel atgofion am ei blentynodod, cofiai am athro Saesneg canol oed oedd â natur bod yn arbennig o watwarllyd yn dweud wrtho, 'Never talk about yourself, no-one is interested in you.' Beth bynnag am rinwedd y fath ddweud, yn sicr araf oedd Iain i dynnu sylw ato ef ei hun. Ond, roedd ganddo amser rhyfeddol i eraill, yn arbennig i fuddiannau eraill. Roedd ganddo restr weddi feunyddiol, a byddai'r ddisgyblaeth o ddarllen ei Feibl a gweddio bob bore yn dwyn ffrwyth mewn llythyron, negeseuon, galwadau lu ac ymweliadau.

Er mai cymharol fyr fu gwaith y clefyd oedd am ei ddwyn i weld Iesu wyneb yn wyneb, yr oedd ei wythnosau olaf yn batrwm o'i fywyd cyfan. Yr oedd ei ofal dros ei deulu a hyd yn oed dros y rhai oedd yn dod draw i weinidogaethu iddo yn nodweddiadol o un oedd wedi rhedeg y ras yn ffyddlon, a gorffen ei yrfa yn dda. Rai wythnosau cyn ei farw cafodd Iain ei hun yn darllen maen coffa mewn eglwys a Salm 102:23 wedi ei ysgrifennu arni: 'Y mae wedi sigo fy nerth ar y daith, ac wedi byrhau fy nyddiau.' Ond ar yr un maen yr oedd Salm 73:26: 'Er i'm calon a'm cnawd ballu, eto y mae Duw yn gryfder i'm calon ac yn rhan imi am byth.'

Rhaid cydnabod gofal Christine, gofal oedd yn llifo o gariad oedd yn sioe i'r byd. Cariad hefyd oedd sail ei berthynas hardd â'i blant a'u teuluoedd. Yr ydym yn cofio am Christine, Jonathan a Caroline, Lucy a James, a Tim a Samantha yn ein gweddïau, a hefyd am ei wyrion ac wyresau a gweddill ei deulu.

Meirion Morris

John Elias (1774–1841)

Sut mae croniclo bywyd rhywun mewn ychydig eiriau? Y demtasiwn yw defnyddio gormodiaith neu orgyffredinoli. Ac nid datblygiad diweddar mo hyn. Yn ei gyfrol am Michael D. Jones ym 1903, dywed E. Pan Jones: 'yr oedd M. D. Jones yn ddyn MAWR'. Neu beth am werthusiad Owen Thomas yn *Cofiant y Parchedig John Jones Talsarn* (1874): 'Yr ydoedd, y mae yn ddiammheuol, y pregethwr mwyaf poblogaidd ... a gododd erioed yn Nghymru.' Tipyn o ddweud, ac nid am y gŵr a enwyd ar glawr y cofiant ond yn hytrach am un o enwau mawr Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: John Elias.

Gan fod eleni'n 250 mlwyddiant genedigaeith Elias, byddai'n dda ystyried ei gyfraniad, heb anghofio bod bywyd meidrolion yn aml yn cynnwys y gwyb a'r gwachul!

Cefndir

Ganwyd John Jones (yn ddiweddarach y cafodd ei adnabod fel John Elias) i deulu o wehyddion ym 1774, a chafodd ei fagu ar aelwyd Crymllwyn Bach rhwng Rhos-fawr a Llwyndryys, sir Gaernarfon. Yn ôl ei hunangofiant, cafodd ei daid gryn dylanwad arno gan ei dywys i'r eglwys leol bob Sul, ac yn achlysurol i Bentreuchaf i wrando ar bregethwyr Methodistaidd. Ei daid oedd yr esiampl ysbrydol gynnar, drwy arwain defosiwn teuluol a dysgu John bach i ddarllen y Beibl ac i ofni Duw. Fel cynifer o'i gyfoeswyr, magwraeth uniaith Gymraeg a gafodd Elias, heb ryw lawer o addysg ffurfiol. Roedd yn oedolyn pan dreuliodd rai misoedd yn ysgol Evan Richardson



yn Nghaernarfon, ac yno y dysgodd Saesneg. Mae'n amlwg i ddiffyg addysg a'i ansicrwydd gyda'r Saesneg fod yn ddraenen yn ei ystlys gydol ei oes. Mewn llythyr at ei fab, a addysgwyd yng Nghaer, erfyniodd arno i wneud y mwyaf o'i fanteision addysg ac i feistrolï'r iaith Saesneg er gwaethaf pob bagliad a sarhad.

Twfysbrydol

Serch colli ei daid yn ei blentyndod, parhaodd Elias i fynychu oedfaon. Ac wrth iddo aeddfedu daeth yn gynyddol ymwybodol o demtasiynau er ei fod yn dyheu am gymdeithas ddyfnach gyda Christnogion. Pan oedd yn ddeunaw oed, cafodd ymweliad â Sasiwn y Bala argraff ddofn arno, a thros y misoedd dilynol profodd hyfrydwch yn ei enaid wrth fyfyrïo ar eiriau 2 Corinthiaid 5:18–21. Daeth gwirionedd yr Efengyl yn eglur wrth iddo sylweddoli fod ei bechod wedi cael ei gyfrif i Grist, a chyfiawnder Crist wedi cael ei gyfrif iddo yntau trwy ffydd. Amlygwyd yr athrawiaeth hon trwy gydol ei weinidogaeth a chyhoeddodd draethawd yn ddiweddarach ar gyfiawnhad y pechadur.

Pregethwr

Fel pregethwr grymus y cyfeirir at John Elias yn bennaf. Defnyddiai osgo dramatig a llais clir i gymell pechaduriaid i ffoi rhag anghrediniaeth, anfoesoldeb, a barn Duw. A'r ffordd i wneud hynny oedd trwy gofleidio Iesu Grist fel Gwardrwr. Yn nhyb Elias, nid oedd tasg bwysicach na chyhoeddi'r achubiaeth a sicraodd Duw trwy aberth Ei Fab. Ac yntau'n un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfnod, nid yw'n syndod clywed fod pobl yn tyrru i wrando arno ar ei deithiau cyson ledled Cymru a Lloegr. Serch hynny, camgymeriad fyddai tybio mai dim ond cynulleidfaoedd parchus a gwerthfawrogol a ddô i wrando ar John Elias! Mae dau o'r hanesion cofiadwy amdano yn ei ddisgrifio'n pregethu i atal ffair ar ddydd Sul yn Rhuddlan, ac yn ymateb i feddwon anystywallt mewn cymanfa yng Nghaerdybi. Dangosodd yr esiamplau hyn ymgais fwriadol Elias i fynd at bobl o bob math gyda'r Efengyl – yn enwedig rhai na fyddai'n arferol yn mynychu addoliad. Ar ben hyn, amlygodd allu rhyfeddol i gyfleu cenadwri yn drydanol o bersonol, nes bod gwrandawyr yn argyhoeddedig bod Duw yn siarad yn uniongyrchol â hwy trwy'r pregethwr. Er ei ddoniau a'i ddyfalwch wrth fireinio'i grefft fel pregethwr, cyfaddefodd Elias mai trwy



nerth oddi uchod y llwyddodd: 'nerthodd yr Arglwydd yn wyneb terfysg mawr ... Rhoddodd fuddugoliaeth!'

Gweinidog ac arweinydd awdurdodol

Wrth i'r Methodistaidd barhau i ddatblygu, cynyddodd y galw ar iddynt ordeinio gweinidogion yn hytrach na dibynnu ar offeiriadaeth yr Eglwys Sefydledig. Ac fel un o'r pregethwyr mwyaf blaenllaw, ordeiniwyd John Elias ymhlith gweinidogion cyntaf y Methodistaidd Calфинаidd yn sasiwn gogledd Cymru 1811. Erbyn hyn, ac yn sicr wedi marwolaeth Thomas Charles (1814) a Thomas Jones (1820), ef oedd un o arweinwyr mwyaf dylanwadol y Corff, fel y gwelwyd yn ei gyfraniad sylweddol at lunio'r Gyffes Ffydd ym 1823.

Yng ngolwg rhai, glynai Elias at ffurf gul o Uchel Galfiniaeth, ond dyfarniad yr Athro Densil Morgan ar y Gyffes Ffydd yw ei bod yn ddogfen aeddfed a sicraodd gydbwysedd athrawiaethol. Ac wrth gyfeirio at gyfraniad penodol Elias, meddai: 'dengys ei waith feistrolaeth benigamp ar holl deithi diwinyddiaeth y cyfamodau, a'i ragoriaeth eithaf fel Cymreigydd, ac mae'r Gyffes ar ei hyd yn fynegiant croyw a chyfrifol o'r Galfiniaeth gymedrol.'

Er ei boblogrwydd, enynnodd John Elias wg nifer oherwydd ei natur awdurdodol a'i duedd i bwdu gyda'r rhai oedd yn anghydweld ag ef. Un esiampl hynod oedd pan fu'n lletya o dan yr unto â Lewis Edwards ifanc, ond yn gwrthod siarad ag ef dros y bwrdd brecwast gan i Edwards fod mor feiddgar ag anwybyddu cyngor y pregethwr dylanwadol o Fôn ynglŷn â ble i astudio diwinyddiaeth!

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

John Elias (1774–1841)*(parhad o dudalen 6)*

Ceir hefyd esiamplau ohono'n chwannog i ddiarddel aelodau o'r Methodistiaid nad oedd yn cydsynio â'i safbwyntiau gwleidyddol. Roedd beirniadaeth o'r awdurdodau a ymylai at radicaliaeth wleidyddol yn annerbyniol yng ngolwg Elias, a bu'n chwyrn ei wrthwynebiad i ehangu'r hawl i bleidleisio trwy ddeddf

Diwygio Seneddol 1832, ac i Ryddfrenio'r Catholigion ym 1829. Tybed ai yn ystod y cyfnod hwn y dechreuodd rhai gyfeirio ato fel y Pab o Fôn?

Wrth gnoi cil ar fywyd John Elias, cofiwn iddo wynebu profedigaethau dwys gan golli dau blentyn ar eu genedigaeth, a'i wraig gyntaf, Elizabeth, ym 1828. Ailbriododd yn Lerpwl ym 1830 gydag Ann, gweddw Syr John Bulkeley,

Bodedern. O hynny hyd ei farwolaeth ym 1841 ym gartrefodd yn y Fron, Llangefni.

A ninnau'n byw mewn oes dra gwahanol, gallwn edrych yn ôl ar gyfraniad John Elias a diolch nad oes angen cefndir arbennig er mwyn i'r Arglwydd ein defnyddio. Waeth beth fo'r amgylchiadau, 'iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd' (Jona 2:9).

Rhodri Glyn
Bangor

Llewelyn Lewellin a Choleg Dewi Sant, dulliau cyfieithu *beibl.net* – a llawer mwy yn y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*

Bywyd a gwaith Llewelyn Lewellin, prifathro cyntaf Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, yw testun prif erthygl rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd*, a'i hawdur yw'r Gwir Barchedig J. Wyn Evans, cyn-egob Tyddewi a chyn-ddeon y gadeirlan yno. Yn ogystal â bod yn bennaeth y coleg yr oedd Lewellin – ac fel 'na y sillafai ei enw – hefyd, yr un pryd, yn ddeon Tyddewi ac yn ficer plwyf Llanbedr Pont Steffan. Mae'n erthygl ddifyr gan feistr ar ei bwnc. Er i'r prifathro gael eu farnu'n hallt gan rai o'i gyfoeswyr ac eraill a ddaeth ar ei ôl, mae Wyn Evans yn mynnu bod cryn dipyn i'w ddweud o'i blaid. Traethwyd y ddarlith sy'n sail i'r erthygl fel rhan o ddatliadau daucanmlwyddiant Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Y seicolegydd Cristnogol Gaius Davies, awdur y gyfrol boblogaidd *Genius and Grace* ac amryw o lyfrau eraill, yw pwnc ysgrif John Emyr, y bardd a'r llenor o Gaerdydd. Wrth dalu teyrnged i un a fu'n gyfaill teuluol iddo ef a'i rieni, mae'n olrhain ei yrfa o'i blentyndod ym mhentref glofaol Pen-y-groes, Sir Gâr, yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf, i flynyddoedd ei hyfforddiant meddygol yn Ysbyty Sant Bartholomew, Llundain. Yna, cyfeirir at ei gyfnod fel meddyg teulu yng Nghonwy yn y 1960au, cyn iddo ddychwelyd i Lundain er mwyn ailhyfforddi fel seicolegydd yn Ysbyty Maudsley ac yn y brifysgol yno. Er mai meddyg a seicolegydd proffesiynol ydoedd wrth ei alwedigaeth, mawr oedd ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth, hanes a'r celfyddydau yn gyffredinol. Ac er iddo fyw yn Llundain weddill ei oes, parhaodd i gyfrannu at y diwylliant Cymraeg fel darlledwr a sylwebydd cyson ar ei faes.


Mae Rowland Wynne yn parhau â'r ail ysgrif yn ei gyfres ar wyddonwyr o Gymru, a Joan Strothers, 'yr arbrofwr digymar', yw'r pwnc y tro hwn. Yn ferch o Abertawe a astudiodd ym Mhrifysgol Caer-grawnt, gwnaeth gyfraniad mawr ym maes ffiseg. Fel E. G. Bowen, y gwyddonydd y soniwyd

amdanu yn rhifyn blaenorol *Y Traethodydd*, radar oedd ei harbenigrwydd mawr. Beth bynnag am ei chyfraniad neilltuol yn y byd gwyddonol, gwnaeth hynny fel merch. 'Person arbennig felly,' meddai Rowland Wynne, 'ond uwchlaw hyn, un a oresgynnodd ragfarn y cyfnod yn erbyn merched.' Da, felly, yw cael gwybod amdani hi.

Does dim amheuaeth nad un o'r cyfraniadau mwyaf i grefydd Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain hyd yn hyn yw *beibl.net*, cyfieithiad arloesol y Dr Arfon Jones o'r Beibl mewn ieithwedd gyfoes. Mewn dadansoddiad gwybodus, mae Iwan Rhys Jones, yntau'n ysgolhaig beiblaidd, yn tafoli'r dulliau cyfieithu a defnyddiwyd wrth lunio'r gwaith hwn gan roi golwg hefyd ar dechneg cyfieithu yn gyffredinol. Yn ôl un adolygydd cynnar, 'chwithig' yw Cymraeg y cyfieithiad hwn. Nid dyna farn pawb, a does dim amheuaeth nad yw'r gwaith wedi ennill ei le mwyach ymhlith yr ieuencid yn arbennig. Darllenwch yr ysgrif hon i wybod mwy amdano.

Ceir pedwar adolygiad y tro hwn. Rhianedd Jewell o Brifysgol Aberystwyth sy'n gwerthfawrogi astudiaeth Angharad Price, *Gororion: Llên Cymru yng Nghyfandir Ewrop*. Yna, mae Gareth Evans-Jones, yr ysgolhaig amryddawn o Brifysgol Bangor yn tafoli *Dros Gyfiawnder a Rhyddid: Y Cambrian Guards a Rhyfel Cartref America*, cyfraniad diweddaraf ei gyd-Fangoraidd Gerry Hunter at ein gwybodaeth am Gymryr Unol Daleithiau. M. Wynn Thomas sy'n trafod hynodrwydd barddoniaeth Aled Jones Williams ac yn esbonio'i nodweddion, ei pherthnasedd i'n hoes ni a'i harwyddocâd. Ac yn olaf y Golygydd sy'n cymeradwyo astudiaeth swmpus ddiweddar John Harding, *The Theology of Griffith Jones and Religious Thought in Eighteenth Century Wales*. Beirdd y rhifyn yw Mary Burdett-Jones a D. Ben Rees.

Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond



i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Nodyn i'r tanysgrifwyr: trwy amryfusedd, gyrrwyd cynnwys rhifyn Ebrill atoch ynghyd â chlwr y rhifyn cyfredol. Cafwyd sicrwydd gan y wasg y bydd y rhifyn cywir yn cyrraedd yn fuan. Gobeithio nad yw hyn wedi achosi gormod o anhwylostod i'r rhai sy'n tanysgrifio, gyda diolch i bawb sy'n gwneud hynny ac anogaeth i eraill ystyried hynny.

Densil Morgan (gol.)



O Gefn Gwlad



Distewi mae'r gân

Bu canu emynau yn rhan o'm bywyd i erioed. Canu'r alaw yng nghapel Gwyddelwern i ddechrau, a phan dorrodd fy llais, dysgu canu tenor am fod R. E. Lloyd, oedd yn denor ardderchog, yn digwydd bod yn eistedd am y cefngor â mi. Dwi ddim yn meddwl bod y canu yn ein capel ni yn arbennig, dim gwell a dim gwaeth nag mewn llawer capel arall, os cofia i. Ond roedd pethau'n wahanol pan es i'r coleg i Fangor. Mynychu oedfaon Twrgwyn bob nos Sul, cynulleidfa dda yn llawr y capel, a'r galeri'n llawn o fyfyrwyr y Brifysgol a'r Coleg Normal, a'r canu yno fel canu cymanfa.

A ble bynnag yr oedd criw o Gymry wedi ymgynnull yr adeg honno, ac am genhedlaeth neu ddwy wedi hynny, fe fyddai yna ganu ar nifer dda o'n hemynau mwyaf adnabyddus: mewn cymanfa a chwrs, cynhadledd, gwrsyll a thafarn, ac ar y maes chwarae hefyd – rygbi yn enwedig. A does dim rhaid i mi eich atgoffa bod y canu, wrth gwrs, yn ganu pedwar llais. Mewn angladdau yn aml y ceir y canu capel gorau erbyn hyn, er bod pethau'n dirywio yn y rheini hefyd, gyda mwy a mwy o ddynion yn canu'r alaw, os ydynt yn canu o gwbl.

Cofiwch, nid pawb oedd yn gwybod am draddodiad emynyddol Cymru hyd yn oed yn hanner ola'r ugeinfed ganrif. Mi gofias fod un Awst mewn gwesty llawn o eisteddfodwyr rywle yn y de yn y chwedegau. Yn y gwesty hwn deuai negeseuau gan unigolion yn achlysurol ar y system sain: rhywun eisiau cyfarfod rhywun arall. Ac yn y man daeth y neges hon: 'Will William Williams from Carmarthenshire go to the foyer where Ann Griffiths of Montgomeryshire is anxious to meet him.' Fe chwaddodd pawb, ond mater o dristwch oedd o wir na wyddai'r ferch ddi-Gymraeg am ein traddodiad emynyddol yng Nghymru.

Fe waethygodd pethau, a daeth tro ar fyfyrwyr hyd yn oed ymhlith y Cymry Cymraeg. Gwagiodd ein capeli, dilëwyd dysgu solffa o gwricwlwm ysgol ac ysgol Sul, ac



Cymanfa Ganu yn Seion, Waunarllwydd, un o gapeli'r Bedyddwyr

aeth y canu, hynny sydd yna ohono, yn ganu unsain ar yr alaw yn unig. Dirywiodd i'r fath raddau fel mai eithriad bellach yw cael hanner awr o ganu emynau o gapel yn *Caniadaeth* y *Cysegr* ar y radio, Yn amlach na pheidio emynau o'r archif ydyn nhw, neu emynau a genir gan gorau fel rhan o broject y BBC i warchod yr holl emynau sydd yn *Caneuon Ffydd*. Ac os ydych chi'n llawenhau o glywed 'Calon Lân' yn cael ei morio ar derasau'r cae rygbi, cofiwch mai hwn yw'r unig emyn erbyn hyn sy'n wybyddus i bawb.

Fel yna y mae hi, ac fe ddaw terfyn yn y man ar ganu cynulleidfaol fel y galwn ef. Ydi o o bwys? Onid haws canolbwyntio ar y geiriau pan nad oes nodau i ymgodymu â hwy? Mi godais i'r mater yn ein cylch trafod yn ddiweddar ac fe gyfaddefodd un nad oedd yn meddwl am y geiriau ond yn ceisio canu'r nodau cywir. Ond fe ddywedodd un arall fod canu emyn yn codi ei chalon ac yn gysur ar adegau trist.

Fel mae'n digwydd, roedd ei hateb hi'n cyd-fynd â gorchymyn cynta John Wesley, a drafododd ganu yn y capel rywdro. 'Canwch,' medde fo, 'bob amser, hyd yn oed pan mae gennych groes i'w chario. Gall y fendith ddod ar yr awr anodd.'

Y mae ganddo gyfarwyddiadau eraill digon diddorol, a dyma un: 'Canwch yn gryf ac nid fel petaech yn cysgu neu'n hanner marw. Peidiwch ofni eich llais eich hun.' Minnau wrth ddarlenn y geiriau hyn yn cofio arweinydd côr yn dweud unwaith: 'Os nad ydych yn clywed y nesa atoch yn canu, yna rydech chi eich hun yn canu gormod neu mae o wedi rhoi'r gorau iddi.'

Efallai mai cyfarwyddyd pwysicaf John Wesley i bob un sy'n canu mewn gwasanaeth yw hwn: 'Canwch yn ysbrydol gyda'ch meddwl ar Dduw drwy'r amser.'

Ie, canolbwyntio'r meddwl ar Dduw. 'Molwch yr Arglwydd: canys da yw canu i'n Duw ni; oherwydd hyfryd yw, ie, gweddus yw mawl,' meddai'r salm. Rhan o addoliad yw canu yn y capel i fod, ond yr hyn sy'n fy nhristâu i yw, nid yn gymaint fod y gân yn distewi yn ein haddoldai, ond fod hynny'n golygu hefyd fod gwybod am yr holl emynau sy'n waddol cyfoethog inni fel Cymry yn mynd yn angof ym meddyliau pobol. Mae yna genhedlaeth ar ôl cenedlaeth yn codi erbyn hyn sydd fel y ferch yn y gwesty na wyddant hyd yn oed am enwau rhai fel Ann Griffiths a William Williams, Pantcelyn, heb sôn am wybod am eu hemynau.

Elfyn Pritchard

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru